COFNODION CYFARFOD AGORED FFORYMAU YSGOLION GWYNEDD:
'DYFODOL YSGOLION CYMUNEDAU BACH GWYNEDD'
YN NEUADD YSGOL DYFFRYN NANTLLE
MEHEFIN 29AIN, 2006 AM 7.30PM

Ymddiheuriadau: Hywel Williams AS, Alun Ffred Jones AC, Cyng Dafydd Iwan, Dwyryd Williams (gan gofnodi cefnogaeth i gynlluniau i ffederaleiddio yn ardal Y Bala), Llew ap Gwent (eto'n cofnodi cefnogaeth i gynlluniau i ffederaleiddio yn yr un ardal).

1) Agorwyd y cyfarfod gan y Cyng. **Liz Saville Roberts (LS)**, sy'n llywodraethwraig ar 2 ysgol gynradd. Cyfeiriodd at y pryder yn Llyn ynghylch effaith botensial y newidiadau. Pwrpas dod at ein gilydd yw rhannu pryderon o'r fath ac edrych ar y cwestiynau y dylid eu gofyn, ynghyd â beth sy'n bosib ei wneud. Dywedodd y byddai'n barod i ystyried yr egwyddor o ffederaleiddio ond i neb neidio i mewn yn ddall.

2) Angharad Tomos (AT). Cysylltiad agos ag ysgolion cynradd drwy'r wlad ers chwarter canrif, a sefyllfa'r Gymraeg yw ei phrif gonsyrn. Un ysgol – Llanwddyn, ysgol fendigedig - yn nodweddu pryder cyffredin: mae'r staff yn hapus iawn ar wahan i 'bwysau llywodraeth' ac ymyrraeth allanol. Polisi Cymdeithas yr Iaith -cadw ysgolion gwledig ar agor doed a ddelo, cau ysgol yn gyfystyr â chau cymuned. Beth bynnag yw iaith plant hyd yn oed, rhaid cadw'r ysgol leol ar agor. Cyfeiriodd at "Llwyddiant Ysgolion Pentref", dogfen Cymdeithas yr Iaith. Ni ellir meddwl yn gyfyng am ysgolion fel hyn a hyn o lefydd gwag, cymhareb athro/disgybl, canrannau – nonsens ystadegol.

Eto, nodwedd Gymreig yw gwrthwynebu newid hyd yn oed pan fod newid yn anorfod. Dim modd troi niferoedd plant rhag mynd ar i lawr. Eirioni mwyaf yw mai mewnlifiad oddi allan all gadw ysgolion ar agor – mewnlifiad mwy nag sy'n bosib o Gymry Cymraeg. Rhaid edrych ar opsiynau eraill. Safbwynt Cymdeithas yr Iaith – edrych gyntaf ar anghenion y gymuned. Atebion yn wahanol i wahanol ardaloedd. Rhaid wrth hyblygrwydd a gweledigaeth i weld beth all ddigwydd i gymunedau yn y dyfodol. Yng nghyfarfod Cymd. Yr Iaith â Richard Parry Hughes, soniodd nad cau oedd y bwriad. Rhaid ymddiried dyfodol y cymunedau i'r cymunedau hynny eu hunain. Lle'r Cynulliad yn hyn yn achosi pryder – angen i Gyngor Gwynedd daro nôl. Rhaid sicrhau'r defnydd ehangaf o ysgolion ac addysg yn ei ystyr ehangaf un.

3) Dewi Tomos (DT). Ysgolion Bach: 30 mlynedd yn ôl, bygythiad i gau ysgolion bach a dyna ddigwyddodd mewn sawl achos. Edrych ar 3 ysgol na chaewyd, yn sgil ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith: Llanaelhaearn, Felinwnda a Baladeulyn. Y sefyllfa heddiw yn yr ardaloedd hyn – Llanaelhaearn: 32 o blant, pennaeth egniol arbennig o weithgar. Felinwnda – pwyllgor lleol brwd wedi codi neuadd gymuned sy'n dangos ffydd yn nyfodol y gymuned, a Baladeulyn yr un modd – yr ysgolion yn greiddiol i'r bwrlwm cymunedol. Pe baen nhw wedi cau, ni fyddai dim o hyn, a hynny'n wir am yr

ysgolion bach heddiw. A ffederaleiddio? Golygu bod ysgolion yn colli eu hunaniaeth, colli arweiniad pennaeth, a theuluoedd yn symud allan. Ysgolion mawr hefyd – pa les addysgiadol fyddai ffederaleiddio'n ei ddwyn i'r rhain? Amhosib, dan drefn ffederal, i bennaeth nabod 250-300 o blant. Ysgolion Canolig – er enghraifft Rhostryfan, 68 o blant (er gwaethaf y ffin 'swyddogol' o ysgol fach = dan 90 o blant) - ysgol gymuned glodwiw, dim problemau penodi penaethiaid, digon o ddewis. Dim gostyngiad sylweddol yn y niferoedd. Dim llefydd gweigion – diffyg lle os rhywbeth. Felly pam newid? Nid plwyfoldeb yw dweud na fyddai'r un ymlyniad wrth ysgol ffederal.

Ar yr un pryd, angen rhannu mwy ar faich gweinyddol ac arbenigedd. Baich gweinyddol yw gwreiddyn problemau ysgolion – a byddai cydweithio rhwng ysgolion yn datrys hynny heb golli hunaniaeth yr ysgolion hynny. Y drefn ffederal – Os yw hi'n drefn mor berffaith, sut mae un ysgol wedi llwyddo i orarbed £90,000? O fynd i lawr ee o 68 i 65 o blant, ysgol yn cael miloedd ar filoedd yn llai yn ei chyllideb. Angen sicrhau digon o gyllid i ysgolion cefn gwlad ffynnu. Os yw ysgolion – ee Penllyn, lle mae nifer o ysgolion da iawn, ond bach iawn – yn dymuno trefn ffederal, bob lwc. Ond ymateb yn ôl y galw yw hynna, yn ôl cydsyniad y cymunedau, nid gwthio'r un drefn ar bawb.

4) Cyng. Seimon Glyn (SG) – Llawer o'i le yng Ngwynedd... ond un peth sydd yn gweithio'n iawn ydi'r ysgolion cynradd. Gwasanaethau Ysgolion i weld yn gwthio'r agenda – a oes 'na un gudd? A ydi'r sefyllfa gyfredol yn anghynaladwy neu ydi'r gwasanaeth ysgolion yn mynd i'w gwneud hi'n anghynaladwy?

Neb wedi dweud be ydi'r taflun ariannol yn dilyn ffed. Ffed. yn mynd i gau safleoedd. Llywodraethwyr fydd yn gorfod penderfynu nid Cynghorwyr. Ffed. yn mynd i greu grwpiau mwy o blant, llusgo plant o un safle i'r llall: pwy sy'n goruchwylio? Pwy sy'n talu? Pan fo'r cyngor yn sôn am y posibilrwydd o ysgol ffed. yn "ailystyried ei strategaeth i 4 i 3 ysgol" yr hyn a olygant yw cau ysgol. Gwynedd yn dweud fod 'canran uchel o unrhyw arbedion i'w gadw yn y dalgylch'. Oni ddylai'r cyfan? Ffed. yn costio mwy na chadw ysgolion fel maen nhw, trafod penaethiaid fel glo mân. Canmol penaethiaid Gwynedd – dim digon o gydnabyddiaeth iddynt fel mae. Beth ddigwydd i'w morâl wrth iddynt symud i lawr yn benaethiaid safle'n unig? A oes swydd-ddisgrifiadau gan Gwynedd i'r swyddi newydd hyn? Gostyngiad cyflog sylweddol i benaethiaid wneud yr un gwaith a mwy. Dim atebion gan Wynedd, dim cynllun. Beth ddigwyddodd i fanteisio ar sefyllfaoedd wrth iddynt godi?

Pam ddim aros fel ydan ni os ydan ni isio? Caniatau rhai sydd eisiau ffed. a gweld – treialu'r peth. Dilyn yr un polisi drwy'r sir yn gambl aruthrol – dim ystyriaeth i amgylchiadau a chymeriad y gwahanol ysgolion. Pob ysgol yn wahanol – dim gwell, dim gwaeth, jyst gwahanol. Pam fod y gwasanaeth ysgolion mor gyndyn i gynnwys y rhieni yn y drafodaeth – i'r mwyafrif mae ffed. yn ddirgelwch llwyr. Neb wedi gweld tystiolaeth ei fod yn gweithio. SG wedi cael addewid personol gan un cynghorwr nad yw'r Cyngor yn mynd i gau safle am 10 mlynedd – felly beth yw pwynt newid beth bynnag? Pwy yn

ei iawn bwyll sydd eisiau swydd pennaeth ffederal? Agweddau bygythiol y swyddogoion – nid ymgynghori ydi'r hyn maen nhw'n ei alw'n ymgynghori, ond yn hytrach, deud wrthym beth i neud. Teimlad fod pwysau oddi fry'n gwthio'r newidiadau yn eu blaen. Pwy fydd eisiau mynd i fyw i bentre heb ysgol, pan fydd ysgolion yn cau (nid os). Llawer o benaethiaid ofn dod heno, a phwysau ar gynghorwyr i beidio dod. Llawer yn digwydd tu ôl i ddrysau caeedig.

Ddim yn hollol wrthun i'r syniad – pawb eisiau cadw meddwl agored. Ond lles y plant sy'n dod gynta. Ac os oes llawer yn fait accompli, rhaid i ni fynnu atebion cadarn ar gynllunio a strategaeth. Neb yn fodlon gamblo â dyfodol addysg y plant. Swyddogion yn euog o fwlio, gan eu bod wedi penderfynu mai ffed. sy'n mynd i ddigwydd doed a ddelo. Angen costio. Angen i unrhyw newid fod efo sêl bendith y gymuned. Angen gwylio rhag i'r cymal 'gyda chydsyniad y cymunedau' gael ei ddirymu ar y slei. Wrth iddynt sôn am rannu arian yn fwy teg, amlwg nad oes syniad ganddynt o gyfraniad ysgolion mewn cymuned fach. Angen i ni ddangos ein dannedd, sylweddoli mai safleoedd yn unig fydd ysgolion mewn trefn ffed. – gorffen bodoli fel unedau yn eu hawl eu hunain. Colli enwau, a safleoedd. SG: canfyddiad personol - hyn i gyd yn drewi.

5) Wrth agor y drafodaeth i'r llawr, LS: mewn ymgyngoriadau, clywed o hyd nad oes bwriad i gau ysgolion. Rhaid i ni wylio - dim statws gyfreithiol i ysgolion unigol dan drefn ffed. a llywodraethwyr fydd yn gyfrifol am gau. Rhesymau dros ffed. yn newid bob tro, yn union fel pe bai uwchgynghorwyr yn dweud: "Fedrwn ni'm deud pam, ond jyst trystiwch ni, rhaid i ni ffed."

• Geraint George, Cadeirydd Llywodraethwyr Penisarwaen: a) y swyddogion yn ymfalchio yn y broses ymgynghori, ond yn bell o fod yn 'ymgynghori' go iawn. Rhieni ddim yn rhan ohoni. Dim ond pennaeth a 2 – 3 o lywodraethwyr i'r cyfarfodydd. Beth am ymateb yr ardal lawn? b) 'anghynaladwy' – cynaliadwyedd yn cynnwys y cymdeithasegol, economaidd a chymunedol. Peryg mai 'ddim yn gynaliadwy yn ariannol' maen nhw'n ei olygu wrth 'ddim yn gynaliadwy'.

• AT: synnu nad oedd neb o'r uwchswyddogion yn bresennol. Lleisiwyd y farn o'r llawr mai diystyrru unrhyw beth nad ydynt yn ei hoffi maen nhw.

• 'Ysgol fach' yn ôl diffiniad y Cynulliad yw ysgol â llai na 90 o blant – hynny ddim yn wir yng nghefn gwlad. Angen i ni ei wrthwynebu.

• Dim manylion ariannol wedi eu cyflwyno – dim ond dweud y byddai posib cyllido pennaeth digyswllt â'r arian digyswllt wrth i 4 ysgol ddod at ei gilydd. Ond yn ymarferol, penaethiaid ddim yn cymryd yr amser digyswllt, gwell ei ddarparu ar gyfer staffio ac ati. Hynna'n cael ei golli wrth ffed. – arwain at lai o bres o fewn yr unedau ffed. i gyflogi staff dysgu.

• SG – gallai arwain at ddiswyddo staff.

• LS – adroddiad Estyn – dweud yn glir nad yw ffed. yn rhatach. Hynny heb gael ei ddyfnnu yn yr ymgynghoriad.

• Aled Jones Gruffydd, Llywodraethwr, Carmel: cyfrifoldeb arnom ni fel llywodraethwyr i ymgynghori efo rhieni. Hynny eisoes wedi digwydd yng Ngharmel, a'r rhieni wedi cael taflen wybodaeth gan y Cyngor yn sôn am y newidiadau.

• Yr honiad fod ysgolion dan 90 yn rhy fach i'w cynnal wedi dod o'r Cynulliad – sy'n credu mai dim ond ysgolion mawr sy'n llwyddo. Os yw'r Cyngor Sir ond yn pasio bob dim mae'r Cynulliad yn ei ddweud, beth yw pwynt y Cyngor Sir?

• Pennaeth Ysgolion yn dweud fod raid bod yn arloesol – ddim yn wir yn achos cefn gwlad Cymru.

• SG – Angen dychymyg: yn y 50au cynnar, symudiad demograffig o Ben Ll?n wedi golygu fod niferoedd ar i lawr yn ysgol Aberdaron. Codi tai yno wedi achub yr ysgol. Dim i rwystro'r Cyngor Sir rhag adeiladu tai cymdeithasol yng nghefn gwlad.

• Bethan Prichard, Llanaelhaearn – wedi bod yn byw ffwrdd a dychwelyd i'w hardal – os na fyddai yno ysgol, fyddai hi ddim wedi symud yn ôl yno: allweddol i'w phenderfyniad.

• Y Cyngor yn honni 'bod angen codi 10 o dai i gynhyrchu 1 plentyn'! Nonsens.

• Geraint George – cyfarfod dalgylch cyntaf: disgwyl iddynt gytuno ar fodel o fewn dwy awr a hanner. Felly hefyd yr ail a'r trydydd cyfarfod. Swyddogion yn gyndyn i gytuno ar 4ydd cyfarfod, ar ôl i'r llywodraethwyr a'r pennaeth ymgynghori â'r ardal. Dim atebion o gwbl gan swyddogion i gwestiynau strategol. Swyddogion: dim ond 20 yn llai o blant a ragwelir yn nalgylch Brynrefail ymhen blynyddoedd i ddod.

• Alwyn Gruffudd: 2 lun yn aros yn y cof o'r 20ganrif – cau Ysgol Celyn (14 o blant), ac aelodau Cymd. Yr Iaith ac Adfer yn symud clwyd ysgol Bryncroes. Nid Lerpwl na henaduriaid Sir Gaernarfon sydd wrthi heddiw, ond Cyngor Gwynedd, sy'n cael ei arwain gan Blaid Cymru. Trist eu gweld yn dinistrio yn lle gwarchod. Falle'u bod yn ymgynghori, ond hefyd yn symud y pyst o hyd. Rwan, gofyn i'r penaethiaid gynnig modelau: cwbl annheg. Rhaid i aros fel ydan ni fod yn opsiwn.

• LS – Adroddiad Estyn yn nodi llawer o ffyrdd o gydweithredu rhwng ysgolion – llawer mwy na dim ond ffed.

• Sut fath o ddemocratiaeth sydd os yw penaethiaid ofn dod i gyfarfod fel

hwn? Angen edrych ar bob ardal ar ei phen ei hun – gwae nhw rhag gwneud hyn i blant Gwynedd heb ystyriaeth lawn.

• LS – os oes rhai ardaloedd eisiau, iawn. Ond angen ariannu'r peth yn iawn, peilota, dangos cefnogaeth ac ewyllys i lwyddo. Pam fod angen ymateb 'blanced'? Yr 'ymgynghoriad' honedig yn beiriant stîmrôlio.

• Megan Lloyd Williams – ymgynghori â rhieni'n rhoi grym gwirioneddol i ni, ac angen i ni ei ddefnyddio: rhieni yw'r bobl bwysica'n y broses.

• Cyng. Owain Williams – Cofio cau Ysgol Pistyll pan oedd ond 9 o blant ynddi. Rwan, bygwth ysgolion â llai na 90. Lle nesa? 190? Mewn ardaloedd gwledig, dyletswydd i warchod y gymuned a'r iaith – cau ysgol yn gau pentref. Yr holl sôn am niferoedd: maen nhw'n mynd i fyny ym Mrynaerau. Pwy all ddweud beth ddigwydd yn y dyfodol? Tueddiadau'n gallu newid efo'r ewyllys cywir - drwy wella cefn gwlad, codi tai fforddiadwy, mwy o bwyslais ar ddatblygu economaidd, cynnal cymunedau – a'r ysgol yn galon y cymunedau. Angen i Gynghorwyr Gwynedd ddweud wrth y swyddogion mai gweithio iddynt hwy y maen nhw.

• Gofynnodd LS am gynnig pendant o'r llawr, rhywbeth i ni gofio wrth wynebu'r ymgyngoriadau. Gocheled y rhai sydd heb fod drwy ymgynghoriad – un tric yw dweud wrth un dalgylch fod pawb arall ym mhobman arall yn cyd-dynnu.

• DT – anodd: angen i rieni wybod yn llawn beth sy'n mynd ymlaen ond y Cynghorwyr eu hunain ddim yn cael gwybod. Annog pawb sy'n llywdoraethwyr i drefnu cyfarfodydd â'u rhieni.

• Pam ddylien ni wneud hynny? Gwaith gwirfoddol yw bod yn llywodraethwyr – swyddogion yn gyflogedig, nhw sydd i fod i ymgynghori â rhieni. Swyddogion yn troi rhieni a llywodraethwyr yn erbyn ei gilydd.

• SG – uwchswyddogion wedi cyfaddef nad ydyn nhw wedi gweld manylion ariannol yn ymwneud â ffed. Ac os nad ydyn nhw, pwy sydd? Angen cofio nad ydi Plaid goruwch craffu chwaith. Trech gwlad nag arglwydd, wiw i ni feddwl fel arall. Rhaid i ni drafod efo rhieni, pawb i benderfynu sut i ymateb i'r cynllwyn.

• AT – ac ymateb hefyd at y Cynulliad.

• Cynnig hysbysfwrdd ar y we dan www.ysgol.co.uk i rannu barn a gofyn cwestiynau a chysylltu â'n gilydd ac ati.

• LS – annog defnydd ohono – cynnig defnyddiol iawn.

• Sôn fod adroddiad interim yn mynd gan y pwyllgor craffu i'r Cyngor llawn. Angen gofyn am gael gweld yr adroddiad interim.

• LS – diolch i bawb am ddod, a pheidio digalonni.

• Alwyn Gruffydd – angen cynnig go iawn cyn mynd oddi yma. Angen dweud ein bod yn pryderu'n wirioneddol am ein cymunedau. Angen i Gyngor Gwynedd ddweud wrth y Cynulliad am newid sefyllfa cyrsiau CPCP (cyrsiau gorfodol i ddarpar- benaethiaid nad yw'r Cynulliad ond wedi caniatau 2 le eleni – gan greu diffyg penaethiaid, sy'n cael ei ddefnyddio fel un esgus dros ffed.). Angen dweud y dylai pob cymuned yng Ngwynedd gael penderfynu ei thynged ei hun. Neges i'r Cyngor, a thrwy hynny i'r Cynulliad.

• Angen pwysleisio mai yn ôl angen ardaloedd unigol mae gweithredu, a gwrthod unffurfiaeth.

• Leslie Jones – dim hawl gan gynghorwyr i siarad allan ar hyn a siarad wedyn yn y Cyngor. Os nad oes hawl ganddyn nhw, fel cynghorwyr, beth yw gwerth cynghorydd? Hanfodol iddynt gael hawl i drafod a chael ei drafod wedyn yn y Cyngor. Dim synnwyr fod penaethiaid a chynghorwyr ofn trafod yn agored.

• LS - Y broses ymgynghorol – rhaid iddo fod yr hyn mae'n honni bod – nid jyst bachu ar y term. Yr ymgynghoriad fel mae yn annerbyniol. Os nad yw newid yn wirfoddol i'r ardaloedd, mae'n annerbyniol. 'Gyda chydsyniad y cymunedau' – hollbwysig fod y cymal yn sefyll.